



Amcan Llesiant 10

Heneiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

Y canlynol yw ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Datblygu model iechyd a gofal 'cymdeithasol' sy'n canolbwyntio ar lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol yn hytrach nag iechyd gwael		
<p>Byddwn yn parhau i anelu at leihau cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty tra byddant yn aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (PAM/025)</p> <p>(2017/18 - 47 o gleientiaid - cyfradd o 2.50 / Targed 2018/19 - 42 o gleientiaid - cyfradd 2.21)</p>	x	<p>Cadwyd 81 o gleientiaid (cyfradd o 4.21) yn yr ysbyty tra'n aros am ofal cymdeithasol yn ystod 2019/20. Rydym wedi bod yn datblygu gwasanaethau newydd i gefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty a sicrhau bod ein dinasyddion yn cael y gofal iawn ar yr adeg iawn. Ynghyd â'n gwasanaeth ailalluogi a arweinir gan therapi, rydym wedi datblygu Gwasanaeth Asesu Canlyniadau sy'n sicrhau bod yr holl bobl sydd angen gofal a ddarperir yn statudol yn cael cyfle i gael asesiad pellach yn eu cartref er mwyn hyrwyddo eu hannibyniaeth. Gan fod mwy o bobl â chydafiachedd, sy'n arwain at anghenion cymhleth a lefelau uwch o ofal, rydym wastad yn monitro ac adolygu ein gwasanaethau i ateb y galw hwn. Ein nod yw lleihau ein ffigur Trosglwyddo Gofal 29.6% yn y flwyddyn sydd i ddod, sy'n cyfateb i 57 o gleientiaid.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn ac yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant drwy gyflwyno cyllideb ar y cyd rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd a gofal preswyl. (Cyf 13220)</p> <p>MF5-52b</p>	✓	<p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â Chynghorau Sir Ceredigion a Phenfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn rhan o gytundeb cronfa gyfun rithwir ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal a gomisiynwyd i oedolion hŷn, sydd wedi bod ar waith ers 1 Ebrill 2018. Mae hyn yn cynnwys pob lleoliad preswyl gan yr awdurdod lleol, lleoliadau Gofal Nyrsio a Ariannwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a lleoliadau Gofal Iechyd Parhaus 'safonol'. Mae'r Cytundeb yn darparu ar gyfer nodi cyllideb ranbarthol gyfun ar gyfer cartrefi gofal ac adroddiadau rheolaidd, ffurfiol i'r partneriaid statudol ar wybodaeth ariannol a pherfformiad sy'n ymwneud â'r sector yng Ngorllewin Cymru. Hefyd mae'r Cyngor wedi cyfrannu at ystod o weithgareddau i gefnogi arferion comisiynu integredig, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Datblygu Cytundeb Cyn Lleoli a rennir (wedi'i gefnogi gan atodlenni sy'n benodol i Sir Gaerfyrddin er mwyn adlewyrchu trefniadau lleol) – caiff ei fabwysiadu'n ffurfiol gan bartneriaid statudol yn ystod 2019-20.• Adolygiad o ddata ariannol a data perfformiad ar gyfer y sector, sy'n galluogi monitro gwasanaethau ar y cyd a nodi arferion gorau.• Alinio arfer gweithredol mewn perthynas ag asesu, monitro a sicrhau ansawdd, gan alluogi dull mwy cyson ar draws Gorllewin Cymru a chefnogi trosglwyddo gofal yn amserol a phenderfyniadau ariannu teg.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<ul style="list-style-type: none"> • Creu gwefan ar y cyd, amser real, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ar lefydd gwag mewn cartrefi gofal. Unwaith eto bydd hyn yn helpu i gefnogi rhyddhau pobl o ofal a throsglwyddo gofal.
<p>Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw, drwy sefydlu cyd-bwyllgor rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gyda phartneriaid perthnasol. (Cyf 13221) MF5 52c</p>	✓	<p>Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o adolygiad o drefniadau llywodraethu sydd wedi'i gynnal i gryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar draws y rhaglen ranbarthol gynyddol. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae cylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud yn glir ac mae strwythurau cefnogi yn cael eu rhoi ar waith i hwyluso gwneud penderfyniadau ar y cyd gan bartneriaid statudol. Caiff strwythurau diwygiedig eu rhoi ar waith yn llawn yn ystod 2019-20.</p>
<p>Byddwn yn parhau i leihau nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PAM/015) (Canlyniad 2017/18 - 161 o ddiwrnodau / Targed - 160 o ddiwrnodau)</p>	✓	<p>Canlyniad 2018/19 - 157 diwrnod. Mae hwn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol ac mae'n cydymffurfio â'r targed.</p>
<p>B - Darparu ystod eang o wasanaethau ac ymyriadau.</p>		
<p>Byddwn yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn modd sy'n sicrhau canlyniadau i'n poblogaeth a thegwch o ran hynny. (Cyf. 13222)</p>	✓	<p>Mae'r arfer hwn wedi'i wreiddio mewn ymarfer Gwaith Cymdeithasol yn unol â Chôd Ymarfer 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac fe'i hawdurdodir gan Uwchymarferwyr ac fe'i harchwilir gan Reolwyr yn y Timau Adnoddau Cymunedol.</p>
<p>Byddwn yn parhau i wella'r cyfleoedd dydd a ddarperir i bobl hŷn ar draws y sir. (Cyf 13223) MF5-53</p>	✓	<p>Mae crynodeb wedi'i gynnal sy'n edrych ar yr angen a aseswyd a nifer yr unigolion sy'n mynychu canolfannau dydd, gan gynnwys y rhesymau dros ddefnyddio'r gwasanaeth.</p> <p>Mae angen gwneud dadansoddiad pellach cyn gwneud penderfyniadau ynghylch gwella'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod barn rhanddeiliaid yn cael ei hystyried.</p> <p>Mae holiadur Sicrhau Ansawdd wedi cael ei gwblhau gan breswylwyr, teuluoedd a phartneriaid. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd er mwyn llywio'r cynllun datblygu ar gyfer cyfleoedd dydd i bobl hŷn yn y sir.</p>
<p>Byddwn yn cyflwyno rhaglen fuddsoddi ar gyfer Cartrefi Gofal a Chynlluniau Tai Gwarchod drwy gyflwyno anghenion y dyfodol a threfniadau gofal preswyl cynaliadwy yn ardal Llanelli i sicrhau darpariaeth llety priodol yn yr ardal. (Cyf 13224) MF5-54</p>	✓	<p>Mae cynllun buddsoddi a chyllido yn cael ei lunio ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn gallu ateb anghenion y dyfodol. Fel rhan o'r ymarfer hwn, mae "cynnig" y bobl hŷn ar gyfer y dyfodol yn cael ei weld yng nghydestun byngalos, tai gwarchod, gofal hyblyg a gofal preswyl.</p>
<p>Byddwn yn cynnal darpariaeth fewnol gref a chynaliadwy yn y Cyngor ar gyfer gofal cartref a gofal preswyl. (Cyf 13225) MF5-55</p>	✓	<p>Erbyn hyn, mae'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer gofal cartref wedi tyfu i 35% o'r farchnad o ganlyniad i integreiddio Gofal Iechyd "Allied" i'r gwasanaeth.</p> <p>Cysoni telerau ac amodau Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i dargedu ar gyfer mis Mehefin 2019.</p> <p>Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar strwythur rheoli newydd a fydd yn atgyfnerthu'r sefyllfa</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		bresennol ymhellach ac yn caniatáu i'r busnes dyfu ymhellach, mewn ffordd effeithlon, yn y dyfodol.
C - Nodi sut y gall cymunedau lleol gyfrannu at gefnogi llesiant ac annibyniaeth.		
Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a darparwyr y trydydd sector i sicrhau bod cymorth a gwasanaethau gofal iechyd meddwl priodol ar gael. (Cyf 13226) MF5-57	✓	Mae'r pedair ffrwd waith a sefydlwyd i weithredu'r rhaglen trawsnewid iechyd meddwl yn gwneud cynnydd da yn y meysydd gwaith canlynol; llwybrau, gweithlu, trafnidiaeth ac ystadau. Mae'r gwasanaeth cefnogaeth mewn argyfwng yn Llanelli yn y cyfnod gweithredu. Bydd cymorth yn cael ei gomisiynu gan 2 ddarparwr y trydydd sector, MIND a HAFAL, sy'n cydweithio ar y prosiect hwn. Mae swyddogion o Geredigion, Sir Benfro, a Sir Gaerfyrddin wedi cwrdd i gytuno ar ddull cyson wrth ddatblygu un pwynt mynediad ac i gysylltu'r gwaith hwn â'r trefniadau y tu allan i oriau. Mae Gofal Cymdeithasol a Hamdden yn cydweithio i gyflwyno rhaglen gweithgareddau llesiant ar draws y sir.
Gofynnir i gleientiaid a ydynt yn fodlon ar eu gofal a'u cefnogaeth. Dangosodd arolwg 2017/18 fod 86.8% yn fodlon. Fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i wella hyn. (PAM024) (Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2018/19)	x	Yn ôl arolwg 2018/19, roedd 84.6% o gleientiaid yn fodlon ar eu gofal a'u cymorth, ac mae hwn yn ddirywiad ers 2017/18. Hefyd roedd cynnydd yn y rhai nad oeddent yn fodlon o 1.5% i 3%.
Gofynnir i ofalwyr a ydynt yn credu eu bod yn cael cefnogaeth i barhau yn eu rôl ofalu. Dangosodd arolwg 2017/18 fod 69% yn teimlo eu bod yn cael hynny. Fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i wella hyn. (PAM/026) (Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2018/19)	x	Yn ôl arolwg 2018/19, roedd 64.4% o ofalwyr yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth i barhau â'u rôl ofalu, ac mae hwn yn ostyngiad ers y llynedd, sy'n siomedig. Ar nodyn cadarnhaol, bu i nifer y gofalwyr a gwblhaodd yr holiadur gynyddu o 29 i 59, a all ond gwneud y canlyniad yn fwy cywir.